# Grantiau a Arweinir Gan Ieuenctid CGLlSFF Nodiadau Canllawiau 2025 - 26

Mae Grantiau a Arweinir Gan Ieuenctid yn fenter gan Lywodraeth Cymru sy'n galluogi pobl ifanc i ddatblygu sgiliau ac ennill profiad mewn arweinyddiaeth ieuenctid drwy arwain prosiectau gwirfoddoli lleol.

Mae Grantiau a Arweinir Gan Ieuenctid CGLlSFf ar gael i bobl ifanc ddechrau prosiectau gwirfoddoli mewn cymunedau ar draws Sir y Fflint. Gall grantiau o £250, £500, £750 a £1,000 dalu am offer ac adnoddau sydd eu hangen i ddechrau prosiectau sy'n arwain at weithgareddau gwirfoddoli gwych.

- Mae'r holl sefydliadau sy'n gwneud cais am y grant yn gwneud hynny ar gyfer prosiect sydd wedi'i arwain gan bobl ifanc Dylai'r holl grwpiau sy'n gofyn am arian gennym gael eu harwain gan bobl ifanc. Mae pobl ifanc yn cymryd rhan yn llawn o'r dechrau hyd y diwedd ac yn cael dweud eu dweud am yr hyn sy'n digwydd.

- Mae'r prosiect sy'n cael ei sefydlu gan y bobl ifanc yn weithgaredd gwirfoddol Dylai'r prosiect gynnwys pobl sy'n hapus i gymryd rhan. Ni ddylai'r bobl sy'n cymryd rhan wneud elw iddynt eu hunain.

- Mae'r mwyafrif o'r bobl ifanc sy'n cymryd rhan yn y prosiect yma rhwng 14 a 25 oed. Dylai'r rhan fwyaf o'r bobl ifanc sy'n cymryd rhan yn y prosiect fod rhwng 14 a 25 oed. Os yw eich grŵp yn pryderu am hyn, cysylltwch â ni i drafod y mater

- Mae'r prosiect yn digwydd yn Sir y Fflint a bydd pobl o Sir y Fflint yn elwa ohono Rhaid dangos bod y prosiect o fudd i bobl ifanc a chymunedau Sir y Fflint

- Rydym yn croesawu ceisiadau sy'n cefnogi un neu fwy o nodau canlynol 'Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015)':

  1. Cymru lewyrchus – trechu tlodi a gwella cyfleoedd bywyd
  2. Cymru gydnerth – paratoi a chynllunio ar gyfer y dyfodol
  3. Cymru sy'n fwy cyfartal – rhoi cyfle cyfartal i bawb beth bynnag fo'u cefndir
  4. Gymru Iachach – annog ffyrdd iach o fyw
  5. Gymru o Gymunedau Cydlynys – helpu i greu cymunedau hapusach
  6. Gymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu – creu cyfleoedd yng Nghymru a dathlu'r iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig
  7. Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang – edrych ar ôl yr amgylchedd ac ystyried eraill

- Efallai y byddwch hefyd yn dymuno cryfhau eich cais drwy greu fideo byr (2-3 munud o hyd) sy'n egluro eich syniad. Tydy hyn ddim yn hanfodol.

Revised: Chwefror 2026

## Chwilio am syniadau?

Dyma rhai esiamplau o brosiectau mae grantiau a arweinir gan yr ieuenctid wedi'u hariannu o'r blaen:

- Creu **Gardd Gymunedol**, gardd ecogyfeillgar ac ymwybyddiaeth ofalgar i gymuned Parkfields ei mwynhau
- Bocsys Gofal a Chrefft **- parseli trît i'r henoed** yn ystod cyfnod clo Covid – yn cynnwys eitemau wedi'u gwneud â llaw, fel bagiau lafant, cyffug, sebon, cacen ffrwythau, canhwyllau sent a llyfrau atgofion
- Prosiect Llwyth Gwyllt i ailgartrefu a gofalu am **ddraenogod** wedi'u hanafu
- **Diwrnodau Gweithgareddau Chwaraeon** – Llysgenhadon Ifanc yn cynnal sesiynau blasu chwaraeon
- Prosiect sain grŵp **pantomeim** – offer i'r gwirfoddolwyr ifanc gyflawni'r swyddi Peirianwyr Sain yn eu perfformiadau pantomeim blynyddol.
- Prosiect **Codi Sbwriel**. Gweithgaredd gwirfoddoli i gadw mannau cerdded cyhoeddus ac ar hyd yr arfordir yn ddi-sbwriel.
- Prosiect i gerddorion ifanc gynnal cyfres o **gyngherddau** mewn gerddi / cartrefi gofal i ddiddanu'r preswylwyr hŷn sydd wedi bod yn ynysu
- **Prosiect amrywiaeth** – Prosiect cefnogaeth cymheiriaid dan arweiniad ymgyrch amrywiaeth o fewn ysgol, i hyrwyddo gwerthoedd fel parch, cyfrifoldeb ac amrywiaeth fel rhan o Fis Hanes LGBTQ+.
- Creu / **ailaddurno** ystafell gymunedol o dawelwch mewn hostel i rieni ifanc
- Mae gwirfoddolwyr ifanc wedi creu gardd i unigolion gydag anghenion cymhleth sy'n byw gyda chymorth, er mwyn **tyfu ffrwythau a llysiau**. Roedd tŷ gwydr a thwneli plastig wedi'u caffael ar gyfer hyn.
- Prosiect uwchgylchu i bobl ifanc gan roi iddynt sgiliau **ailgylchu** hen bibelli gwastraff a'u troi yn gerfluniau copr a phethau eraill
- fudd i'r gymuned o Prosiect rheoli coetir – prosiect sgowt i goedlannu a **phlannu coed** mewn gardd gymunedol FlintShare yng Nghilcain
- Prosiect Gŵyl **Gwallt a Harddwch** Sir y Fflint sy'n helpu pobl ifanc ennill y sgiliau sydd eu hangen i wirfoddoli yn y cefndir mewn digwyddiadau cymunedol

***Dim ond ychydig o'r holl wahanol gyfleoedd ydy'r rhain – buasem wrth ein boddau yn clywed eich syniadau!***

**Sganiwch y cod i wneud cais**

### Mae'n rhaid gwario'r grant erbyn Mai 30 2026

Ar ôl i'ch prosiect orffen, bydd angen ichi lenwi Ffurflen Fonitro i egluro sut aeth eich prosiect ac anfon lluniau atom. Mae'n rhaid cwblhau ac anfon y ffurflen monitro diwedd prosiect erbyn Mehefin 30 2026.

**Os oes arnoch chi angen ffurflen gais neu unrhyw gyngor neu gymorth gyda llenwi'r ffurflen**, cysylltwch: E-bost: Heather.Hicks@flvc.org.uk Rhif ffôn: 01352 744004

Revised: Chwefror 2026